OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 Rhif 1629 (Cy.123)

# BWYD, CYMRU

## Rheoliadau Halogion mewn Bwyd (Cymru) (Diwygio) 2005

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud - -* | *14 Mehefin 2005* |
| *Yn dod i rym - -* | *30 Mehefin 2005* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 16(1)(a), (e) ac (f), (17)(1) a (2), 26(1)(a), (2)(e) a (3) a 48(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(**1**), ac a freiniwyd ynddo bellach(**2**), wedi rhoi sylw yn unol ag adran 48(4A) o'r Ddeddf honno at gyngor perthnasol a roddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd ac ar ôl ymgynghori fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor, sy'n pennu egwyddorion cyffredinol a gofynion cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn pennu gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(**3**), yn gwneud y rheoliadau a ganlyn:

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Halogion mewn Bwyd (Cymru) (Diwygio) 2005 sy'n dod i rym ar 30 Mehefin 2005 ac maent yn gymwys o ran Cymru.

**Diwygio Rheoliadau Halogion mewn Bwyd (Cymru) 2005**

**2.** Diwygier Rheoliadau Halogion mewn Bwyd (Cymru) 2005(**4**) fel a ganlyn —

yn y diffiniad o "Reoliad y Comisiwn" ar ôl "Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 455/2004" mewnosoder ", Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 655/2004(**5**), Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 683/2004"(**6**).

(**1**) 1990 p.16.
(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).
(**3**) OJ Rhif L31, 1.2.2002, t.1, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad (EC) Rhif 1642/2003 Senedd Ewrop a'r Cyngor (OJ Rhif L245, 29.9.2003, t.4.).
(**4**) O.S. 2005/364 (Cy.31).
(**5**) OJ Rhif L104, 8.4.2004, t.48.
(**6**) OJ Rhif L106, 15.4.2004, t.3.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**7**).

*D. Elis-Thomas*

14 Mehefin 2005

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**7**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

**1.** Mae'r Rheoliadau hyn, sydd yn gymwys o ran Cymru, ac sy'n diwygio Rheoliadau Halogion mewn Bwyd (Cymru) 2005 (O.S. 2005/364 (Cy.31)) ("y prif Reoliadau"), yn darparu ar gyfer gorfodi gofynion —

(a) Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 655/2004 sy'n diwygio Rheoliad (EC) Rhif 466/2001 (OJ Rhif L77, 16.3.2001, t.1) o ran nitrad mewn bwydydd i fabanod a phlant ifanc; a

(b) Rheoliad Comisiwn (EC) Rhif 683/2004 sy'n diwygio Rheoliad (EC) Rhif 466/2001 o ran afflatocsinau ac ocratocsin A mewn bwydydd i fabanod a phlant ifanc.

**2.** Paratowyd arfarniad rheoliadol ar gyfer y Rheoliadau hyn a'i osod yn Llyfrgell Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ynghyd â nodyn trosi sy'n nodi sut y mae prif elfennau Rheoliadau'r Comisiwn y cyfeiriwyd atynt ym mharagraff 1 uchod yn cael eu trosi i'r gyfraith ddomestig gan y Rheoliadau hyn. Gellir cael copïau oddi wrth yr Asiantaeth Safonau Bwyd, Llawr 11, Southgate House, Caerdydd CF10 1EW.